**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon**

**Crynodeb o Adroddiad i Rieni 2017**

Mae'r adroddiad yma wedi'i baratoi yn ôl gofynion Cylchlythyr 15/01 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae modd cael adroddiad llawn o roi cais amdano.

## 1. Clerc

Jan Jenkins yw Clerc y Corff Llywodraethu,
Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

## 2. Cadeirydd

Mrs Nia Barrar yw Cadeirydd y Corff Llywodraethol.

## 3. Aelodau

Dyma'r rhai sy'n aelodau o'r Corff Llywodraethu ar hyn o bryd:

| Enw | Math o lywodraethwr | Penodwyd gan | Dyddiad y daw'r swydd i ben |
|---|---|---|---|
| Cllr. Rhys Lewis<br>Karen Taylor | **AALl** | **Aelodau o'r Cyngor** | 4.7.20<br>17.7.18 |
| Sedd Wag<br>Diane Meaden<br>Nia Barrar | **Llywodraethwyr Cymunedol** | **Llywodraethwyr** | <br>19.6.21<br>3.6.18 |
| Claire Lewis<br>Rebecca Calderbank<br>Meredydd Sanita<br>Tanya Evans | **Rhiant** | **Rhieni** | 24.11.19<br>2.12.19<br>14.2.21<br>22.9.19 |
| Kate Marsh | **Staff** | **Staff sydd ddim yn addysgu** | 5.11.21 |
| Christine Mack | **Athro/Athrawes** | **Staff addysgu** | 12.9.19 |
| Mr Pugh-Evans | **Pennaeth** | | |

Caiff etholiadau eu trefnu os bydd bwlch yn rhengoedd y rhiant-lywodraethwyr – boed ar ddiwedd eu tymor neu o ganlyniad i ymddiswyddo.

4. **Penderfyniadau**

Doedd dim cyfarfod.

5. **Ethol Rhiant-lywodraethwyr**

Mae'r etholiad nesaf ar gyfer rhiant-lywodraethwyr yn Medi 2019.
Serch hynny, os bydd rhiant-lywodraethwr yn ymddiswyddo cyn y dyddiad hwnnw, byddwn ni'n trefnu etholiad arbennig ar yr adeg briodol.

6. **Data Cyflawniad yr Ysgol**

Mae'r tabl wedi'i hatodi yn dangos canlyniadau cyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd asesiadau Cyfnodau Allweddol.

7. **Datganiad Ariannol – Cyfnod 2016 – 2017**

Yn amgaedig, fel atodiad A mae copi o ddatganiad ariannol yr ysgol am y Flwyddyn Ariannol 2016/17. Bydd gwybodaeth am gyllideb 2016/17 ar gael yn ystod y cyfarfod.

8. **School Prospectus**

Rydym yn ddiweddaru Prospectws yr Ysgol yn flynyddol i gynnwys unrhyw newidiadau sydd angen gan Lywodraeth Cymru neu cyrff perthnasol. Rydym yn rhoi copi o Brospectws yr Ysgol i'r rhieni hynny sydd â phlant yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu os mae'r plant yn trosi o'r babanod i'r adran iau.

Rhoddir gwybod i rieni am unrhyw newidiadau I'r Prospectws presennol.

Diweddarwyd y Prospectws Ysgol i gynnwys newidiadau i staffio a gwybodaeth am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd stadudol.

Bydd copi o'r prosbectws ar wefan yr ysgol.

9. **Cynllun Datblygu'r Ysgol**

Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lunio (gyda chymorth y staff) y Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r cynllun yn adnabod y cyfeiriad mae'r ysgol yn cymryd, dros gyfnod o dair mlynedd, wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Fe adolygir y cynllun yn gyson i fesur cynnydd ac unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm.

Cafodd Cynllun Datblygu'r Ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016 –2017 ei gymeradwyo gan y Llywodraethwyr ac ar hyn o bryd yn cael ei weithredu gan y staff. Mae'r targedau sydd wedi'u gosod yn cynnwys

amcanion y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Caiff targedau eu hadolygu'n gyson gan y Corff Llywodraethu. Bydd rhagor o wybodaeth am y targedau cyfredol, a'r cynnydd sy'n cael ei wneud, ar gael yn y cyfarfod. Mae'r ysgol wedi cwblhau y Cynllun ar gyfer 2017-18 ond nid yw wedi ei gymeradwyo eto gan y Corff Llywodraethol mewn cyfarfod ffurfiol. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn ystod cyfarfod tymor yr Hydref 2017.

Bwriad ac amcanion y cwricwlwm yw i roi darpariaeth eang o brofiadau i bob plentyn, felly yn yn ei baratoi e neu ei pharatoi hi ar gyfer cyfrifoldebau, cyfleoedd a phrofiadau oedolyn.

Rhan bwysig ein gwaith yn yr ysgol yw helpu pob plentyn i wireddu eu llawn potensial. Wrth i allu academaidd tyfu mae sgiliau personol yn meithrin llaw yn llaw.

**Y Cyfnod Sylfaen**

Yn ystod y cyfnod hwn, gosodir sylfeini cadarn y profiadau dysgu. Bydd y pwyslais ar ddatblygu sgiliau hanfodol cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd, TG, corfforol, creadigol, personol a chymdeithasol. Wrth ddarpau cwricwlwm cyfoethog ac eang, rydym yn ceisio dtablygu diddordebau'r plant gan hefyd adnabod eu lefel aeddfedrwyd. Rhain yw'r blynyddoedd pwysig pan mae'r plant yn dysgu sut i arsylwi, gwrando, ymateb a datblygu nid yn unig fel unigolion ond hefyd fel aelodau ystyrlon o'n cymuned.

**Cwricwlwm CA 2**

Ffocws canolog ein cwricwlwm yw sgiliau hanfodol llythrennedd, rhifedd a TG. Ond, wrth i'w dealltwriaeth o'r disgyblaethau gwahanol datblygu, rhoddir mwy o amser i wyddoniaeth a'r pynciau sylfaen. The curriculum will still take place within an integrated theme where it is meaningful and relevant. Mi fydd y cwricwlm yn cel ei ddysgu trwy thema integredig, addas ac ystyrlon

Felly mae'n bwysig, o fewn ffiniau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, y rydym yn paratoi ein Cwricwlwm Ysgol i fod yn un eang a chyfartal a fydd yn diwallu anghenion ein plant, gan gofio i roi'r ethos Cymreig:

**"Yng nghalon y proses addysgiadol mae'r plentyn".**

Mae'r ysgol wrthi yn gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd stadudol newydd ar draws yr ysgol.

**Pynciau a dysgir**

| **Cyfnod sylfaen** | **Cyfnod Allweddol 2** |
|---|---|
| Datblygiad Iaith (Cymraeg) | Iaith (Saesneg + Chymraeg) |
| Datblygiad mathemategol | Mathemateg |
| Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd | gwyddoniaeth |
| Datblygiad Corfforol | Technoleg Gwybodaeth |
| Datblygiad Creadigol | Dylunio a Thechnoleg |

Datblygiad Cymdeithasol a Phersonol
Amrywiaeth Diwylliannol

Hanes
Daearyddiaeth
Celf
Cerddoriaeth
Addysg Grefyddol
Addysg Personol a Chymdeithasol

Addysg Grefyddol
Seilir ein rhaglen ar y ffydd Gristnogol, ac yn y Cyfnod Sylfaen cyflwynir y plant i un ffydd; yng Nghyfnod Allweddol 2 cyflwynir y plant ddau ffydd arall. Mae'n gofyniad stadudol i'r ysgol i neilltuo o leiaf un awr pob wythnos i ddysgu Addysg Grefyddol. Os ddymunir, gall rhieni hepgor eu plant o'r gwersi yma trwy gysylltu gyda'r Pennaeth.

## 10. Defnydd o'r iaith Gymraeg - Cyfathrebu

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw hi, a chyfathrebir y gwersi a gweithgareddau eraill yr ysgol trwy'r iaith Gymraeg. Cymraeg yw'r unig iaith cyfathrebu yn y cyfnod Sylfaen a chyflwynir Saesneg o flwyddyn 3 ymlaen. Heblaw am wersi Saesneg, Cymraeg yw brif iaith cyfathrebu'r ysgol.

## 11. Cynllun ôl-arolwg

Bu'r Llywodraethwyr yn gyfrifol am lunio'r Cynllun ôl-arolwg i ymateb i unrhyw agweddau pwysig a godwyd gan yr Arolygwyr yn ystod arolwg yr ysgol.

Mae'r Llywodraethwyr yn monitro cynnydd y cynllun yn ystod cyfarfodydd tymhorol. Yn dilyn arolwg Mai 2015 nid yw'r ysgol erbyn hyn yn parhau i gael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## 12. Manylion ar faterion Presenoldeb

Dyma'r ystadegau ynglŷn â materion presenoldeb y flwyddyn diwethaf.

**Targed presenoldeb 2016-17 – 95.8%**

**Gwir canran presenoldeb blwyddyn Ysgol 2016-17 – 94.5%**

Mae'r ysgol yn tracio presenoldeb yn ofalus yn rheolaidd gyda llythyron yn mynd adref i ddisgyblion sydd â phresenoldeb isel (o dan 85% ar hyn o bryd). Yn ystod ein gwasanaethau dathlu, gwobrwyir y dosbarth gyda'r presenoldeb wythnosol gorau gyda Dewi'r Ddraig. Cyflwynir tystysgrifau tymhorol i ddisgyblion gyda phresenoldeb 100%.

Gofynnir i rieni i gysylltu â'r ysgol er mwyn ein hysbysu o absenoldeb plentyn. Yn dilyn penderfyniad Cabinet Rhondda Cynon Taff, o Fedi 2014, ni fydd yr ysgol yn awdurdodi unrhyw wyliau yn ystod y tymor onibai am resymau eithriadol.

Mae'r Swyddog Presenoldeb a Lles yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fonitro'r gofrestr. Os yw plentyn yn cyrraedd yn hwyr, gofynnir i rieni i ddod â hwy i'r brif fynedfa er mwyn arwyddo'r llyfr hwyr.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gwobrau her presenoldeb yr awdurdod addysg leol.

Mae absenoldeb o ysgol yn ffactor gyfrannol mewn cyrhaeddiad isel disgyblion, felly, mae Llywodraeth Cymru yn targedu gwella absenoldeb. Gall rhieni helpu'r sefyllfa drwy roi gwybod i'r ysgol os ydynt yn teimlo bod unrhyw broblemau sy'n atal disgyblion rhag mynychu neu sy'n achosi'r disgybl i deimlo nad yw eisiau mynychu'r ysgol.

## 13. Dyddiadau Ysgol a Gwyliau 2017 / 2018 Blwyddyn Academaidd

| | **Dechrau Tymor** | **Dechrau hanner tymor** | **Diwedd Hanner Tymor** | **Diwedd Tymor** |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref 2017** | **4.9.17** | **30.10.17** | **3.11.17** | **22.12.17** |
| **Gwanwyn 2018** | **8.1.18** | **19.2.18** | **23.2.18** | **29.3.18** |
| **Haf 2018** | **16.4.18** | **28.5.18** | **1.6.18** | **24.7.18** |
| | **CYFANSWM 195 diwrnod** | | | |

**Gwyl Banc Mai – Dydd Llun 7fed Mai 2018**

Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn clustnodi diwrnodau HMS ychwanegol, Rhoddir gwybodaeth I ysgolion mewn da bryd.

Trefnir y diwrnod ysgol fel a ganlyn;

**Bore** 9:00 – 12:00 (Cyfnod Sylfaen) / 12:20 (Cyfnod Allweddol 2)
**Amser cinio** 12:00 – 13:00 (Cyfnod Sylfaen) / 12:20 – 13:15 (Cyfnod Allweddol 2)
**Prynhawn** 13:00 – 15:15 (Cyfnod Sylfaen) / 13:15 – 15:15 (Cyfnod Allweddol 2)

## 14. Yr ysgol yn y gymuned

Mae'r ysgol yn un sy'n weithgar yn y gymuned: 'mae'n darparu amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau', yn aml ar ôl oriau ysgol, I helpu cwrdd ag anghenion y disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Nid datblygiad tymor byr yw ysgol a ffocws yn y gymuned, ond cyfle go iawn i ysgolion a chymunedau i weithio gyda'u gilydd mewn ffyrdd gwahanol er budd plant, pobl ifanc ac oedolion.

Yn Ysgol Gymraeg Abercynon, rydym yn gweithio'n agos gyda amrywiaeth o aelodau yn y gymuned.

Mae'r heddlu, nyrs a'r gwasanaeth deintyddol yn ymwelwyr cyson i'r ysgol sy'n hyrwyddo ac yn cyfoethogi'r cwriclwm.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda nifer o asantiaethau allanol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson o'r gymuned leol – rydym yn gwahodd aelodau'r gymuned i'r ysgol e.e. awduron lleol, PCSOs ayyb

Mae gennym cysylltiadau agos gyda Urdd Gobaith Cymru – ar hyn o bryd maent yn cynnig gweithgareddau allgyrsiol i'r plant.

## 15. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Crynodwyd polisi'r ysgol ar gyfer  Anghenion dysgu Ychwanegol fel a ganlyn:

Mae polisi'r ysgol ar gyfer  adnabod, asesu and darparu ar gyfer disgyblion gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol yn  gyson gyda anghenion y  'Code of Practice' Anghenion dysgu ychwanegol i Gymru, a chyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2002.

Mae'r SENCO yn gweithio'n agos gyda pob aelod o staff i sicrhau fod cynlluniau addysg unigol yn cael eu datblygu a'i gweithredu i gwrdd ag anghenion y disgyblion.

Mae'r SENCO yn gweithio'n agos gyda pob aelod o staff, i sicrhau fod cynnydd pob disgybl yn cael eu monitro ac asesu ac i sicrhau fod pob disgyblyn cyrraedd eu llawn potensial.

Yn ystod y flwyddyn academaidd, ar ddyddiad Cyfrifiad PLASC:
14.7% o ddisgyblion School Action/Early Years Action.
6.4% o ddisgyblion School Action Plus/Early Action Plus (gan gynnwys rheiny gyda nodiadau in Lieu).
0.4% a datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-2018 rhoddwyd swm ychwanegol o gyllid yr ysgol i gwrdd ag anghenion y disgyblion gyda Angehnion Dysgu Ychwanegol. Yn ogystal, darparodd yr Awdurdod Lleol cefnogaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion School Action Plus.

Doedd dim newidiadau I'r polisi yn ystod y flwyddyn academaidd 2016-2017.

## 16. Mynediad ar gyfer disgyblion ag anabledd

Wrth lunio y Cynllun Datblygu Ysgol, mae'r Corff Llywodraethol yn ymwybodol o ofynion y "Disability Discrimination Act (DDA) 1995" ynghyd a'r "Special Needs and Disability Act (SENDA) 2005" yn nhrefniadau dyddiol y safle yn ei gyfanrwydd.

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfle i gymryd ran llawn yng nghwricwlwm yr ysgol ac os dymunent mewn gweithgareddau megis clybiau ar ol ysgol, gweithgareddau chwaraeon / hamdden ynghyd ag ymweliadau addysgol. Mae pob agwedd o hygyrchedd, gan gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig yn cael eu cynnwys yn y broses gynllunio.

Mae gan yr Awdurdod Gynllun Hygyrchedd ac o fewn y strategaeth hynny, cyflawnwyd awdit o safle'r ysgol er mwyn nodi unrhyw anawsterau ac i gynllunio ar gyfer gwella hygyrchedd yr ysgol.

## 17. Yr adeilad

Mae cyflwr adeilad yr ysgol yn foddhaol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cwblhawyd y gwaith canlynol:

- Boileri Newydd.
- Adnewyddwyd toiledau'r merched
- Gwnaethpwyd man atgyweiriadau i adeiladau yr ysgol yn ol yr angen.

O fewn adeilad y Gorlan, mae'r toiledau yn rhan o'r dosbarthiadau. Mae gan flynyddoedd 1 a 2 doiledau fel rhan o'u dosbarthiadau. Ceir set arall o doiledau yn ardal y dosbarthiadau gyda rhai ar wahan i fechgyn a merched ar y corridor is. Glanheuir y toiledau yn ddyddiol.

## 18. Gosod Targedau

Ceir adolygiad o startegaethau a thargedau yr ysgol o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.

**Targedau Cyfnod Sylfaen 2017 / 18:**

| | |
|---|---|
| Datblygiad Personol a chymdeithasol, Well-being and Cultural Diversity<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd deilliant 5+ | **84.21%** |
| Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd deilliant 5+ | **86.84%** |
| Datblygid Mathemategol<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd deilliant 6+ | **94.73%** |

| | |
|---|---|
| Datblygiad Personol a chymdeithasol, Well-being and Cultural Diversity<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd deilliant 6+ | **23.6%** |
| Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd deilliant 6+ | **44.7%** |
| Datblygid Mathemategol<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd deilliant 6+ | **44.7%** |

**Targedau Cyfnod Allweddol 2 2017/18:**

| | |
|---|---|
| Cymraeg<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 4+ | **93.9%** |
| Saesneg<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 4+ | **93.9%** |
| Mathemateg<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 4+ | **93.9%** |
| Gwyddoniaeth<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 4+ | **95.9%** |
| Cymraeg<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 5+ | **46.9%** |
| Saesneg<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 5+ | **46.9%** |
| Mathemateg<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 5+ | **51.0%** |
| Gwyddoniaeth<br>Canran o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 5+ | **53.1%** |

## 19. Trefniadau Mynediad / Pontio

Y cyngor sir (RCT) yw'r awrdurdod mynediad ar gyfer pob ysgol (ag eithrio ysgolion yr eglwys – yn yr achos yma y bwrdd llywodraethol sy'n gyfrifol am yr awdurdod mynediad) yn RCT. Gweithredir trefniadau mynediad yr ysgol yn unol a phoisi mynediad yr awdurdod. Mae gwybodaeth pellach yn y llyfryn Dechrau Ysgol. Mae'r llyfryn hwn ar gael i rieni y plant sy'n dechrau yn yr ysgol. Mae cynnwys y llyfr hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod.

Fel arfer bydd y disgyblion yn aros yn yr ysgol tan flwyddyn 6, ac wedyn yn trosi I'r ysgol uwchradd rydyn ni yn bwydo Ysgol Gyfun Rhydywaun, ond, ond gall ddisgyblion gwneud cais i fynd i unrhyw ysgol uwchradd yn unol a pholisi mynediad yr awdurdod.

## 20. Amcanion a Champau Byd Chwaraeon

Mae pob plentyn yn derbyn gwersi Addysg Gorfforol yn wythnosol. Mae pob disgybl o flwyddyn 3 i 6 yn derbyn gwersi nofio yn ystod un tymor.

Mae'r ysgol yn cynnig nifer o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol ac mae nifer o dimoedd yn cystadlu mewn cystadlaethau.

Gweithgareddau allgyrsiol:

Pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi a chriced. Mae disgyblion hefyd yn cystadlu mewn cystadlaethau yn flynyddol gan gynnwys traws-wlad yr Urdd.

21. **Bwyta'n iach**

Mae'r ysgol yn rhan o'r rhaglen Ysgolion Iachus ac rydym wedi ennill y trydydd gwobr eleni.

Darperir cinio ysgol gan Catering Direct sydd yn sicrhau bod prydiau bwyd yn cwrdd yn llawn â gofynion bwyta'n iach.

Annogir disgyblion i ddod â phecyn bwyd iachus.

Nid yw'r ysgol yn caniatau unrhyw losin neu siocled ac mae'r pwyllgor iachus yn rhedeg siop ffrwythau yn ddyddiol.

Mae gan pob plentyn fynediad i ddŵr yfed glân yn ystod y dydd.

Fel rhan o'r gwaith cwricwlaidd, mae disgyblion yn astudio'r pwysigrwydd o fwyd ac diodydd iachus.